

<b>Adroddiad i:</b>	<b>Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>29 Mawrth 2019</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Y Cynghorydd Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Hyfforddiant a Datblygu Aelodau</b>

---

## **1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar faterion hyfforddiant aelodau.

## **2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I geisio safbwyntiau'r Pwyllgor ar gynnwys a chyfeiriad y Rhaglen Hyfforddiant a Datblygu.

## **3 Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn cyflwyno sylwadau ar y Rhaglen Hyfforddiant a Datblygu Aelodau.

## **4 Manylion yr adroddiad**

### **4.1 Cytunwyd Cyngor ym mis Medi 2018 y byddai'r canlynol yn gyrsiau hyfforddiant gorfodol:**

- Cod Ymddygiad – roedd hyfforddiant yn ofyniad yn y Cod ei hun ac roedd presenoldeb Aelodau wedi bod yn 100%.
- Cynllunio – Cynhelir dau ddigwyddiad hyfforddiant bob blwyddyn. Os na fyddai unigolyn wedi mynychu'r sesiynau hyfforddiant, ni allai gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau na phleidleisio.
- Trwyddedu - Os na fyddai unigolyn wedi mynychu'r sesiynau hyfforddiant, ni allai gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau na phleidleisio.

### **4.2 Cytunwyd ar hyfforddiant gorfodol ar gyfer y canlynol hefyd:**

- Cyllid – Cyllid Llywodraeth Leol – cynhelir hyfforddiant unwaith yn ystod tymor cyngor.
- Diogelu – cynhelir hyfforddiant unwaith yn ystod tymor cyngor.
- Rhianta Corfforaethol – cynhelir hyfforddiant unwaith yn ystod tymor cyngor.
- Diogelu Data (GDPR) – cynhelir hyfforddiant yn flynyddol.

### **4.3 Cytunwyd i roi'r cosbau a ganlyn ar waith os na fydd unigolion yn mynychu hyfforddiant gorfodol:**

- Cyhoeddi gwybodaeth ar y wefan unwaith y flwyddyn o ran pwy oedd wedi mynychu gyrsiau hyfforddiant gorfodol a phwy nad oedd wedi'u mynychu.

- Awgrymwyd yn wreiddiol bod rhestr o rai nad oedd wedi mynychu hyfforddiant gorfodol yn cael ei hanfon i'r Pwyllgor Safonau er mwyn i Gynghorwyr egluro pam nad oeddent wedi cydymffurfio mewn cyfarfod cyhoeddus. Penderfynodd Cyngor bod rhestr o unigolion a oedd wedi mynychu hyfforddiant gorfodol a rhai nad oedd wedi'i fynychu yn cael ei dosbarthu i Arweinwyr Grŵp a byddent yn ymgynghori gyda'u Haelodau wedyn i ganfod rhesymau dros beidio mynychu.

### Adolygiadau Datblygiad Personol

- 4.4 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol bod Adolygiad Datblygu Personol (ADP) ar gael i bob cynghorydd. Mae'r ADP yn darparu dull i'r aelod a'r Cyngor asesu anghenion datblygiad personol yr aelod. Byddai'r adolygiad wedi'i osod yng nghyd-destun rôl yr aelod, eu dyheadau ar gyfer yr hyn yr hoffent ei gyflawni, diben a dyheadau'r Awdurdod ac anghenion y gymuned. Gallai'r cyfweiliad gynnwys adolygiad o hyfforddiant a datblygu a dderbyniodd yr aelod dros y flwyddyn flaenorol.
- 4.5 Dylid nodi nad yw ADP yn arfarniad o berfformiad, ond yn fodd o gefnogi a datblygu aelodau. Nid yw'n ofynnol i'r Aelodau ymgymryd ag ADP.
- 4.6 Ym mis Medi 2018 cafodd yr holl aelodau fanylion y broses ADP a'u gwahodd i gofrestru eu diddordeb mewn cymryd rhan. Rhoddir diweddariad ar hyn i'r Pwyllgor.

## **5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, er y bydd aelodau etholedig sydd wedi'u hyfforddi ac yn cael eu cefnogi'n briodol yn cyfrannu at berfformiad y Cyngor ym meysydd strategaeth, ddatblygu polisiau a gwneud penderfyniadau.

## **6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Darperir y rhan fwyaf o'r cynllun hyfforddi gan Swyddogion y Cyngor. Nid yw hyn yn gofyn am ariannu ychwanegol ond bydd angen amser y Swyddogion, ac fe fydd hyn yn ffactor wrth bennu maint a chymhlethdod y rhaglen y mae modd ei darparu. Mae angen gwaith hwyluso allanol ar gyfer rhai meysydd hyfforddi ac fe fyddai angen cynnwys hyn o fewn y gyllideb hyfforddiant Aelodau.

## **7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## **8 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Fe gynhaliwyd ymgynghoriadau gyda Chyngor a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd.

## **9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oedd angen datganiad ganddo ar gyfer yr adroddiad hwn.

## **10 Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Bwriad hyfforddiant a datblygu yw darparu Aelodau â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni rolau gwahanol. Heb yr hyfforddiant hwn, mae risg uwch mewn rhai meysydd o heriau llwyddiannus i benderfyniadau neu atgyfeiriadau i Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus, a pherfformiad salach yn gyffredinol.

## **11 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.